Diogelu Gwent
Gwent Safeguarding

# Diogelu plant ac oedolion o amgylch cŵn



| Cadarnhawyd gan y Bwrdd Mehefin 2023 | Grŵp Protocolau a Gweithdrefnau | Dyddiad Adolygu Mehefin 2026 |
| --- | --- | --- |

## Cynnwys

**TUDALEN**


| | | |
|---|---|---|
| 1. | Amcanion y canllawiau hyn | 3 |
| 2. | Cŵn peryglus | 3 |
| 3. | Mwy o risg | 4 |
| 4. | Perchnogion a theuluoedd (gan gynnwys teulu estynedig a gofalwyr dros dro) | 4 |
| 5. | Canllawiau i ymarferwyr | 5 |
| 6. | Pryd i wneud atgyfeiriad | 6 |
| 7. | Adnoddau ychwanegol | 7 |

## 1. Amcanion y canllawiau hyn

Bu nifer o achlysuron lle mae plant ac oedolion wedi cael eu lladd neu eu hanafu'n ddifrifol gan gŵn yn y cartref a thu allan. Mae hi'n bwysig cofio nad yw hi byth yn ddiogel i adael plentyn heb oruchwyliaeth gydag unrhyw gi, waeth pa mor gyfeillgar yw'r ci neu faint yr ydych chi'n ymddiried ynddo.

Prif nod y canllawiau hyn yw amddiffyn plant ac oedolion ledled Gwent rhag yr anafiadau difrifol a all gael eu hachosi gan gŵn gwaharddedig, cŵn peryglus neu gŵn sy'n cael eu rheoli'n wael.

Bwriad y canllawiau hyn yw darparu adnodd cyfeirio defnyddiol i unrhyw ymarferydd sy'n gweithio'n agos gyda phlant, teuluoedd neu oedolion sydd mewn perygl.

Mae'r canllawiau'n mynd ati i egluro a disgrifio:

- Y plant a'r oedolion sydd fwyaf tebygol o fod yn agored i niwed a'r cŵn sydd fwyaf tebygol o fod yn beryglus.
- Yr wybodaeth a ddylai gael ei chasglu pan fydd unrhyw blentyn neu oedolyn yn cael ei anafu gan gi a'r meini prawf a ddylai ysgogi atgyfeiriad at y Gwasanaethau Cymdeithasol.

## 2. Cŵn peryglus

Mae Deddf Cŵn Peryglus (1991) yn darparu gwybodaeth fanwl iawn am y ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â mathau penodol o gŵn, cyfrifoldebau perchnogion a'r camau y gellir eu cymryd i gael gwared a chŵn a/neu eu rheoli.

O 13 Mai 2014, cafodd Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlismona 2014, Adran 3, ei ehangu i gynnwys y drosedd o fod yn gyfrifol am gi sydd allan o reolaeth ac yn beryglus mewn man cyhoeddus i 'unrhyw le yng Nghymru neu Loegr', sy'n cynnwys lleoedd preifat.

Yn y Deyrnas Unedig, mae hi yn erbyn y gyfraith i fod yn berchen ar fathau penodol o gi oni bai bod gan y perchennog dystysgrif eithrio. Y cŵn hyn yw: ***Daeargi Pydew, Tosa Japaneaidd, Dogo Argentino*** a ***Fila Braziliero***. Os oes gan unrhyw asiantaeth unrhyw wybodaeth neu adroddiad am gi o'r math hwn, dylid adrodd am y mater i'r heddl ar unwaith drwy 101 neu e-bostio eu pryderon i Heddlu Gwent gan ddefnyddio contact@gwent.police.uk yr e-bost sy'n cyfateb i y gwasanaeth 101. Yna gall yr Heddlu gynnal gwiriadau perthnasol o ran amgylchiadau perchnogaeth o'r fath a gwirio unrhyw eithriad.

Fodd bynnag, gall ***unrhyw gi***, waeth beth fo'u brîd, fod yn 'beryglus' (fel y'i diffinnir gan y Ddeddf) os yw'n hysbys eisoes fod y ci wedi achosi neu fygwth anaf.

Mae anafiadau sy'n cael eu hachosi gan fathau penodol o gŵn yn debygol o fod yn arbennig o ddifrifol a niweidiol. Bydd cŵn cryf, pwerus fel bridiau Pydew yn aml yn defnyddio eu genau cefn (yn hytrach na 'nipio') a chyhyrau gwddf pwerus i ysgwyd eu dioddefwyr yn dreisgar wrth iddyn nhw gydio.

Pan fydd adroddiadau o gŵn 'gwaharddedig' a chŵn peryglus neu a allai fod yn beryglus yn gysylltiedig â phresenoldeb plant ac oedolion, dylai pob asiantaeth fod yn effro i'r risgiau a'r canlyniadau posibl.

## 3. Mwy o risg

Mae manteision berchen ar anifeiliaid anwes wedi'u hen sefydlu. Gall cael anifail anwes fod o fudd corfforol ac emosiynol i blentyn ac oedolion yn ogystal â'u haddysgu am gyfrifoldeb a gofalu am greaduriaid byw. Fodd bynnag, mae peryglon hefyd, a phan fyddwch chi'n ymweld â theulu sydd â chi neu'n gweld ci yn y gymuned, mae angen i chi ystyried a yw'r ci yn fygythiad i iechyd, datblygiad neu ddiogelwch y plentyn neu'r oedolyn.

Mae pob plentyn ac oedolyn yn agored i niwed o bosibl gan ymosodiad/ymosodiadau gan gi/cŵn.

- Mae plant ifanc a phlant bach iawn yn debygol o fod yn wynebu'r risg fwyaf.
- Mae oedolion sydd ag anghenion gofal a chymorth neu oedolion sydd mewn perygl yn fwy tebygol o fod yn agored i niwed.
- Efallai na fydd plentyn ifanc na rhai oedolion yn ymwybodol nac yn barod am y peryglon posibl y gallen nhw eu hwynebu.
- Efallai y bydd plentyn ifanc yn llai abl i amddiffyn ei hun ac yn fwy tebygol o fod o faint sy'n gadael rhannau o'i gorff sy'n arbennig o agored i niwed yn agored i unrhyw 'ymosodiad'.
- A yw'n gi mawr mewn cartref bach?
- A yw'r ci yn cael ei adael ar ei ben ei hun gyda'r plentyn neu oedolion ag anghenion gofal a chymorth neu oedolyn mewn perygl?
- Os ydych chi'n ystyried bod ci yn risg ddifrifol i blentyn neu oedolyn, dylech chi gysylltu â'r heddlu ar unwaith.

## 4. Perchnogion a theuluoedd (gan gynnwys teulu estynedig a gofalwyr dros dro)

- Bydd sawl sylwebydd yn mynnu mai'r ‘perchennog, nid y ci' yw'r broblem.
- Bydd achlysuron pan fydd hyd yn oed y perchnogion 'gorau' yn methu â rhagweld neu atal ymddygiad eu ci.
- Heb os, bydd ***gofal, rheolaeth a chyd-destun amgylchedd ci*** yn effeithio ar ei ymddygiad a'r risgiau posibl.
- Mae ymchwil yn dangos bod cŵn ysbaddedig neu ddisbaidd yn llai tebygol o fod yn diriogaethol ac ymosodol tuag at gŵn a phobl eraill.

**Perchnogion**:

- Gall perchnogion sy'n gysylltiedig â gweithgarwch troseddol, ymddygiad gwrthgymdeithasol, cyffuriau neu drais fod â rheswm i annog ymddygiad ymosodol gan gŵn.

- Mewn rhai achosion, mae digwyddiadau o'r fath wedi digwydd lle mae perchnogion wedi annog ymddygiad ymosodol gan y ci, mae rhai o'r perchnogion hyn wedi cael cysylltiadau â gweithgareddau troseddol a rhai ddim.

**Mae teuluoedd sy'n profi lefelau uchel o ymddygiad ymosodol a thensiynau domestig:**

- Yn fwy tebygol o sbarduno cyffro ac ymosodiadau posibl gan gŵn.
- Yn llai tebygol o werthfawrogi a rhagweld risgiau.
- Gallan nhw fod yn llai tebygol o gymryd y rhagofalon angenrheidiol.
- Gallan nhw fod yn llai tebygol o sicrhau diogelwch y bobl ifanc mwyaf agored i niwed.
- Mae plant bach ifanc iawn sy'n byw mewn teuluoedd anhrefnus neu gamweithredol yn debygol o fod yn arbennig o agored i niwed.
- Mae cŵn gwaharddedig, peryglus a phwerus yn debygol o achosi'r anafiadau mwyaf difrifol.

(Iechyd Cyhoeddus Cymru, 2014)

## 5. Canllawiau i ymarferwyr

Mae'r RSPCA yn cynnig y cyngor canlynol i bob gweithiwr proffesiynol sydd mewn cysylltiad ag aelwyd lle mae ci/cŵn yn bresennol:

"Wrth edrych ar gi, neu holi amdano, meddyliwch am y pwyntiau canlynol, na ddylai gael ei hystyried yn rhestr gynhwysfawr ond ei bwriad yw ysgogi chwilfrydedd gweithiwr proffesiynol ynghylch cyflwr lles y ci ynghyd â chamau gweithredu awgrymedig.

"Mae'r pwyntiau'n ymwneud ag Adran 9 Deddf Lles Anifeiliaid 2006 sy'n gosod dyletswydd gofal ar berson sy'n gyfrifol am anifail yn barhaol neu dros dro. Mae'r ddyletswydd gofal hon yn ei wneud yn ofynnol cymryd camau rhesymol i sicrhau bod anghenion lles anifail yn cael eu diwallu i'r graddau sy'n ofynnol gan arfer dda.

Yr anghenion lles yw:

- Yr angen am amgylchedd addas.
- Yr angen am ddeiet addas.
- Yr angen i allu arddangos patrymau ymddygiad arferol.
- Yr angen i fyw gydag anifeiliaid eraill, neu ar wahân iddyn nhw.
- Yr angen i gael eu hamddiffyn rhag poen, dioddefaint, anaf ac afiechyd.

Yn ystod yr ymweliad, gofynnwch a oes ci yn yr eiddo, gan gynnwys yr ardd gefn. Os oes, ac nad oes ci yn yr un ystafell a chi, gofynnwch i weld y ci."

Dylai unrhyw asiantaeth sy'n ymwybodol o gi a allai fod yn waharddedig neu allai gael ei ystyried yn beryglus gasglu cymaint o wybodaeth â phosibl:

- Enw a brîd y ci.
- Y perchennog.
- Y rheswm dros gadw'r ci (mae cŵn sy'n cael eu cadw a/neu eu bridio at ddibenion ymladd, amddiffyn neu fygwth yn debygol o gyflwyno mwy o risgiau nag anifeiliaid anwes go iawn).
- Unrhyw blant neu oedolyn yn y cartref (yn enwedig plant ifanc ac oedolion mewn perygl).

Dylai'r wybodaeth hon gael ei chofnodi gyda'r Heddlu drwy ffonio 101 a'i rhannu gyda'r RSPCA. Dylai gwybodaeth hefyd gael ei rhannu'n briodol gyda Gwasanaethau i Blant ac Oedolion os oes gan weithiwr proffesiynol bryderon am blentyn neu oedolyn mewn perygl, gan wneud atgyfeiriadau yn ôl yr angen (fel y manylir isod).

## 6. Pryd i wneud atgyfeiriad

Dylai pob asiantaeth ystyried gwneud atgyfeiriad at y gwasanaethau i blant pan fo adroddiad bod plentyn yn cael ei anafu gan gi (neu'n agored i risg o anaf). Dylai atgyfeiriad at y Gwasanaethau i Oedolion gael ei ystyried yn yr un modd os oes oedolyn sy'n wynebu risg wedi cael ei anafu gan gi neu ei fod yn agored i risg o anaf. Wrth benderfynu a ddylech chi wneud atgyfeiriad, dylai'r canlynol gael ei ystyried:

- Natur yr anafiadau,
- Amgylchiadau'r ymosodiad/digwyddiad,
- Oed y plentyn (cronolegol a datblygiadol)
- P'un a wnaeth y rhieni/perchennog y ci geisio cyngor/triniaeth,
- P'un a yw'r ci wedi dangos unrhyw ymddygiad ymosodol o'r blaen,
- Pa gamau y mae'r rhieni/perchennog y ci wedi'u cymryd i atal unrhyw ddigwyddiad arall

Efallai y bydd rhai atgyfeiriadau yn cael eu cofnodi 'er gwybodaeth' yn unig gan yr asiantaethau, os yw wedi ei sefydlu'n glir nad oes unrhyw risg sylweddol neu barhaus yn debygol i'r plentyn, na phlant eraill (er enghraifft, os yw'r ci eisoes wedi cael ei 'roi i gysgu' neu ei symud).

Gallai rhai atgyfeiriadau ysgogi rhannu 'taflenni gwybodaeth' am gŵn a gofalu am blant yn ddiogel (gweler atodiadau), os oedd y digwyddiad neu'r anaf yn amlwg yn fach, os oedd y plentyn yn hŷn neu os yw'r teulu wedi dangos yn glir eu bod nhw'n berchnogion cŵn cyfrifol.

Mewn achosion mwy difrifol, byddai asesiadau cychwynnol neu ymchwiliadau adran 47 ar y cyd yn arwain at drafodaethau pellach gydag asiantaethau eraill:

- Ymweliadau cartref i gwblhau asesiadau llawnach ac i lywio barn ar rianta, rheoli a gofalu am gi/cŵn.
- Efallai y bydd angen ceisio cyngor gan filfeddyg i helpu penderfynu ar natur neu lefel debygol y risg sy'n cael ei chyflwyno gan y ci/cŵn.

## 7. Adnoddau ychwanegol

Dyma restr o adnoddau sy'n darparu cyngor i weithwyr proffesiynol a theuluoedd ar gyfer cadw plant yn ddiogel o amgylch anifeiliaid anwes. Ystyriwch pa un sydd fwyaf defnyddiol ar gyfer eich gwaith chi ac, os yn berthnasol, pa un sy'n addas i gael eu danfon at deuluoedd rydych chi'n gweithio gyda nhw. Mae pob un yn pwysleisio'r neges allweddol i beidio byth â gadael plentyn heb oruchwyliaeth gydag unrhyw gi.

- **Teitl**: Keeping babies and children safe around dogs in the home Ffynhonnell: Institute of Health Visiting: https://www.cambscommunityservices.nhs.uk/docs/default-source/Luton---iHV-Top-Tips/ihv_pt_keeping_babies_and_children_safe_around_dogs_april_2017_web.pdf?sfvrsn

- **Fformat**: Taflen ffeithiau PDF argraffadwy 2 dudalen.

  **Disgrifiad**: Mae'r adnodd hwn yn cynnwys awgrymiadau i rieni ynghylch paratoi ci ar gyfer babi'n cyrraedd, sut i gadw cŵn yn ddiogel o amgylch babi, ac ymddygiad i annog mewn plant wrth iddyn nhw dyfu'n hŷn a rhyngweithio â chŵn. Mae hwn yn arbennig o ddefnyddiol i ymwelwyr iechyd, bydwreigiaeth a gweithwyr proffesiynol eraill a allai fod yn gweithio gyda babanod newydd-anedig neu deulu sy'n disgwyl babi lle mae ci yn y cartref eisoes ond efallai'n llai defnyddiol i blant hŷn neu deuluoedd lle mae cŵn a phlant eisoes yn bresennol yn y cartref. Wedi'i anelu at deuluoedd ac yn addas i'w argraffu a'i ddanfon.

- **Teitl**: The six golden rules to keeping children safe and dogs happy Ffynhonnell: RSPCA https://www.rspca.org.uk/adviceandwelfare/pets/dogs/company/children/safe (Saesneg yn unig)

  **Fformat**: Poster/ffeithlun PDF argraffadwy 1 dudalen. Mae cod hefyd ar gael i fewnblannu'r ffeithlun ar wefannau.

  **Disgrifiad**: Ffeithlun gweledol, byr sy'n amlinellu beth i addysgu plant i annog ymddygiad diogel o amgylch cŵn, wedi'i anelu at ofalwyr/teuluoedd. Gall gael ei argraffu a'i ddanfon yn uniongyrchol at rieni neu ei arddangos mewn swyddfeydd proffesiynol neu ar wefannau. Mae hwn yn adnodd defnyddiol, syml a chofiadwy ar gyfer ymddygiad diogel, ond nid yw'n mynd i'r afael â lle gall plant fod yn ansymudol neu'n anabl ac yn methu ag addasu eu hymddygiad eu hunain.

- **Teitl**: Staying safe with dogs Ffynhonnell: Dogs Trust [Dog Help and Advice | Dogs Trust] (Saesneg yn unig)

  **Fformat**: dogfen PDF 2 dudalen sy'n gallu cael ei hargraffu a'i phlygu i greu taflen driphlyg.

  **Disgrifiad**: Yn cynnwys gwybodaeth am ddeall ymddygiad ci er mwyn adnabod risg. Mae hefyd yn cynnwys awgrymiadau ynghylch ymddygiadau i'w hannog mewn plant, a sut i ymddwyn o amgylch cŵn dieithr. Wedi'i anelu at ofalwyr/teuluoedd sy'n

berchen ar gŵn, ond gall yr awgrymiadau ar gyfer mynd yn agos at gŵn dieithr hefyd fod yn ddefnyddiol i weithwyr proffesiynol a theuluoedd nad ydyn nhw'n berchen ar gŵn. Mae'r camau gweithredu ar gyfer cadw plant yn ddiogel yn seiliedig ar annog ymddygiad penodol ac nid yw'n mynd i'r afael â lle nad yw hyn yn bosibl ar gyfer plant ansymudol a/neu blant anabl, er y gall adnabod ymddygiad cŵn fod yn ddefnyddiol i'r teuluoedd hyn.

- **Teitl**: Keeping your toddler safe around dogs Ffynhonnell: Blue Cross https://www.bluecross.org.uk/advice/dog/keeping-your-toddler-safe-around-dogs (Saesneg yn unig)

  **Fformat**: Taflen PDF argraffadwy 2 dudalen. Mae yno hefyd opsiwn i wneud cais i'r Blue Cross ddarparu sgyrsiau addysgol i blant a theuluoedd ynghylch diogelwch anifeiliaid anwes.

  **Disgrifiad**: Mae hon yn daflen ddarllenadwy gydag awgrymiadau i ofalwyr/teuluoedd yn benodol ar gyfer plant o oed twdlod. Oherwydd oedran y plant, mae mwy o bwyslais yn cael ei roi ar gamau y gall rhieni eu cymryd o amgylch eu ci, sy'n debygol o fod yn fwy priodol ar gyfer plant ifanc neu anabl nad ydyn nhw efallai'n gallu addasu eu hymddygiad. Er bod modd argraffu'r daflen a'i chyflwyno i unrhyw deulu, efallai y bydd gweithwyr proffesiynol Addysg neu ofal plant yn dymuno ystyried gofyn am sgwrs addysgol gan y Blue Cross i'w chyflwyno i grwpiau o blant a/neu eu teuluoedd.

- **Teitl**: Dangerous Dogs and Safeguarding Children Ffynhonnell: Bath and North East Somerset LSCB online procedures (SWCPP) Dangerous Dogs and Safeguarding Children (proceduresonline.com) (Saesneg yn unig)

  **Fformat**: Adnodd ar-lein yn unig i weithwyr proffesiynol

  **Disgrifiad**: Pennod ar-lein sy'n cynnwys cyngor i weithwyr proffesiynol ynghylch asesu risgiau i blant a chamau gweithredu y gellir eu cymryd. Mae hefyd yn cynnwys dolenni i adnoddau pellach a chyfeiriadau at ddeddfwriaeth berthnasol, megis Deddf Cŵn Peryglus (1991), Deddf Lles Anifeiliaid (2006), a Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlismona (2014).

**Cŵn a Phlant: Awgrymiadau gwych i'w cadw nhw'n ddiogel ac yn hapus gyda'i gilydd**

Dogs and Children | Top tips to keep them safe and happy together (capt.org.uk) (Saesneg yn unig)

**Taflen ffeithiau - Eich ci a'ch babi**

Your-dog-and-your-new-baby-fact-sheet-2023.pdf (capt.org.uk) (Saesneg yn unig)

**Taflen ffeithiau - Diogelwch plant o amgylch cŵn**

Child-safety-around-dogs-fact-sheet-2023.pdf (capt.org.uk) (Saesneg yn unig)